Pleidleisio drwy ddirprwy

- Dychwelwch eich ffurflen wedi'i chwblhau i'r Swyddfa Cofrestru Etholiadol lleol cyn gynted â phosibl. Gallwch ddod o hyd i'w manylion cyswllt ar **www.fymhleidlaisi.co.uk**

Peidiwch â dychwelyd eich ffurflen i'r Comisiwn Etholiadol.

Dim ond etholwyr sydd (neu a fydd) wedi'u cofrestru'n unigol ar gyfer etholiad neu refferendwm penodol fydd â hawl i wneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy yn yr etholiad neu'r refferendwm hwnnw. Hefyd, dim ond os yw'r person yr ydych am benodi fel dirprwy (neu yn mynd i fod) wedi cofrestru yn unigol, y gallwch eu penodi fel dirprwy. Cysylltwch â'ch swyddfa cofrestru etholiadol i gael mwy o wybodaeth.

Sut ydw i'n gwneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy?

1. Gofynnwch i rywun os ydynt yn fodlon ac yn gallu bod yn ddirprwy i chi a phleidleisio ar eich rhan. Nodwch y gall person fod yn ddirprwy i berthnasau agos a hyd at ddau berson arall yn unig yn yr un bleidlais. Dim ond os yw'r person yr ydych am benodi fel eich dirprwy dros 18 a'u bod wedi cofrestru'n unigol, y gallant fod yn ddirprwy i chi.
2. Llenwch y ffurflen gais pleidlais drwy ddirprwy. Os ydych yn aelod o'r Lluoedd Arfog neu'n briod neu'n bartner sifil i aelod o'r Lluoedd Arfog a'ch bod wedi'ch cofrestru fel pleidleisiwr sy'n gwasanaethu, does dim angen i chi gefnogi'ch cais. Os ydych wedi'ch cofrestru fel etholwr cyffredin, bydd angen i chi gael cefnogaeth gan eich cyflogwr neu berson awdurdodedig arall yn eich gweithle. Cysylltwch â'ch swyddfa cofrestru etholiadol i gael mwy o wybodaeth.
3. Gwnewch yn siŵr **eich bod chi** yn rhoi eich **dyddiad geni** a'ch **llofnod**. Mae angen i chi lenwi **pob** adran, hyd yn oed os ydych eisoes wedi rhoi'r wybodaeth ar eich ffurflen gofrestru Pleidleisiwr sy'n gwasanaethu.
4. Anfonwch eich cais wedi'i gwblhau i'r Swyddfa Gofrestru Etholiadol yn yr ardal yr ydych yn cofrestru cyn gynted â phosibl. Mae'r cyfeiriad ar gael yn www.fymhleidlaisi.co.uk.
5. Mae'n rhaid i chi ddychwelyd eich cais am bleidlais drwy ddirprwy erbyn **5pm, 6 diwrnod gwaith** cyn y bleidlais. Byddwch yn ymwybodol, os nad ydych eisoes wedi'ch cofrestru i bleidleisio, mae'n rhaid bod eich cais i gofrestru wedi cyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol erbyn canol nos 12 diwrnod gwaith cyn y bleidlais.

Y Co s wn Ethol adol

6 Os ydych yn colli'r dyddiad cau ar gyfer gwneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy gallwch wneud cais am ddirprwy mewn argyfwng o dan rhai amgylchiadau cyfyngedig hyd nes 5pm ar y diwrnod pleidleisio. Cysylltwch â'ch Swyddfa Cofrestru Etholiadol yn yr ardal yr ydych wedi'ch cofrestru neu yr ydych yn cofrestru am gyngor. Mae'r cyfeiriad ar gael yn www.fymhleidlaisi.co.uk

Os oes unrhyw amheuaeth, siaradwch gyda'ch Swyddog Cofrestru Uned.

Beth sy'n digwydd wedi i fi wneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy

- Mae'n rhaid i'ch dirprwy fynd i'r orsaf bleidleisio i bleidleisio. Os na allant gael mynediad i'r orsaf bleidleisio, gallant bleidleisio i chi drwy'r post. Mae'n rhaid iddynt wneud cais i wneud hyn erbyn 5pm, 11 diwrnod gwaith cyn y diwrnod pleidleisio. Gall y Swyddfa Cofrestru Etholiadol yn yr ardal yr ydych wedi'ch cofrestru roi mwy o fanylion i chi am hyn. Mae'r cyfeiriad ar gael yn www.fymhleidlaisi.co.uk
- Bydd eich dirprwy yn cael cerdyn pleidleisio dirprwy yn dweud wrthynt ble a phryd i bleidleisio.
- Dylech ddweud wrth eich dirprwy sut yr hoffech iddynt bleidleisio ar eich rhan, er enghraifft, pa ymgeisydd, plaid neu ganlyniad.
- Os ydych chi'n gallu mynd i'r orsaf bleidleisio yn y pen draw ar y diwrnod pleidleisio, gallwch bleidleisio yn bersonol cyn belled nad yw'ch dirprwy wedi gwneud eisoes, na wedi gwneud cais i bleidleisio i chi drwy'r post.

Rhagor o wybodaeth

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch cofrestru i bleidleisio neu bleidleisio drwy'r post neu trwy ddirprwy, cysylltwch â'ch Swyddog Cofrestru Uned neu'r Swyddfa Cofrestru Etholiadol yn yr ardal yr ydych yn cofrestru.

Eich Swyddfa Cofrestru Etholiadol yw'r swyddfa sy'n gyfrifol am y cyfeiriad y DU lle'r ydych yn cofrestru i bleidleisio.

Yng Nghymru a Lloegr, bydd eich Swyddfa Gofrestru Etholiadol yn eich cyngor lleol. Yn yr Alban, gall fod yn swyddfa ar wahân. I ddod o hyd i fanylion cyswllt, ewch i **www.fymhleidlaisi.co.uk**.

Nid yw'r ffurflen hon yn berthnasol i Ogledd Iwerddon. Ewch i www.eoni.org.uk am ragor o wybodaeth.

Dim ond at ddibenion etholiadol fydd Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn defnyddio'r wybodaeth yr ydych yn ei darparu. Byddant yn gofalu am wybodaeth bersonol yn ddiogel ac yn dilyn Deddf Diogelu Data 1998. Ni fydd Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn rhoi gwybodaeth bersonol amdanoch chi i unrhyw un arall na sefydliad arall, heblaw bod yn rhaid iddynt yn ôl y gyfraith.

Y Co s wn Ethol adol

Cais i bleidleisio drwy'r post ar gyfer aelod o Luoedd Arfog Ei Mawrhydi, eu priod neu eu partner sifil

Dim ond un person all wneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy gan ddefnyddio'r ffurflen hon.
Ysgrifennwch mewn inc du a defnyddiwch **BRIFLYTHRENNAU**. Wedi i chi lenwi **pob** adran a llofnodi'r ffurflen eich hun, anfonwch ef at eich swyddfa cofrestru etholiadol. Mae'r cyfeiriad ar gael yn **www.fymhleidlaisi.co.uk**

1 Amdanoch chi

Cyfenw

Enwau cyntaf (yn llawn)

Cyfeiriad gohebu

Cod post neu BFPO

Rhif ffôn yn ystod y dydd neu rif ffôn symudol (dewisol) (gan gynnwys cod y wlad)

Cyfeiriad e-bost (dewisol)

2 Cyfeiriad cofrestru'r DU

Rhowch eich cyfeiriad cofrestru llawn yn y **DU**:

Cod post

3 Ynghylch eich dirprwy

Enw llawn

Perthynas i chi (os o gwbl)

Cyfeiriad llawn

Cod post

4 Am faint ydych chi am gael y bleidlais drwy ddirprwy?

Rwy am bleidleisio drwy ddirprwy (ticiwch un blwch yn unig):

☐ yn yr etholiadau neu'r refferendwm i'w gynnal ar

D D M M B B B B

☐ hyd nes hysbysir yn wahanol (tra fy mod wedi fy nghofrestru fel Pleidleisiwr sy'n gwasanaethu) ym mhob etholiad a refferendwm

☐ ar gyfer pob etholiad neu refferendwm a gynhelir yn y cyfnod

o D D M M B B B B

i D D M M B B B B

5 Y rheswm na allwch bleidleisio'n bersonol

Rhowch y rheswm na allwch bleidleisio'n bersonol.

6 Eich dyddiad geni a'ch datganiad

Datganiad: Yr wyf wedi gofyn i'r person yr wyf wedi'u henwi fel fy nirprwy ac yn cadarnhau ei fod ef/ei bod hi yn fodlon ac yn gallu cael eu penodi i bleidleisio ar fy rhan.

Mae'r manylion ar y ffurflen hon yn wir ac yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth i. Deallaf fod darparu gwybodaeth ffug ar y ffurflen hon yn drosedd.

Dyddiad geni: Ysgrifennwch eich dyddiad geni 'DD MM BBBB' yn y blychau du isod gan **ddefnyddio inc du**

Llofnod: Llofnodwch isod gan gadw o fewn y border llwyd

Os nad ydych yn gallu llofnodi'r ffurflen hon, cysylltwch â'ch Swyddog Cofrestru Etholiadol.

7 Dyddiad y cais

Dyddiad heddiw

D D M M B B B B